

10 Ionawr 2024

Annwyl

ATISN 19373

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 6 Rhagfyr 2023. Ymddiheuriadau am yr oedi wrth ymateb oherwydd gwyliau'r Nadolig. Byddwn yn ymateb erbyn 22 Ionawr, neu'n gynt os yn bosibl.

Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- **Gohebiaeth rhwng swyddogion neu gynrychiolwyr y Llywodraeth a swyddogion neu gynrychiolwyr y Llyfrgell Genedlaethol yn ymwneud ag:**

- o adroddiad CIPFA;
- o ymchwiliad i David Michael – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y Llyfrgell Genedlaethol tan fis Awst 2023;
- o ymddiswyddiad David Michael.

- **Copi o adroddiad CIPFA y Llyfrgell Genedlaethol.**

Nid yw eich cais yn rhoi disgrifiad digon clir i mi allu adnabod a dod o hyd i'r wybodaeth rydych yn gofyn amdani. Yn benodol, byddai'n ddefnyddiol derbyn manylion pellach ynglyn â'r adroddiad CIPFA rydych yn cyfeirio ato yn eich cais.

Ni fyddaf yn gallu prosesu eich cais heb yr eglurhad hwn.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir